



## **PENODI CLERC Y DREF A SWYDDOG CYLLID**

Graddfa Gyflog SCP. 33 - SCP. 36 (£39,493 - £42,503)  
Dyfarniad Cyflog yn yr Arfaeth  
(yn dibynnu ar brofiad a chymwysterau'r unigolyn)

Tref farchnad draddodiadol yng Ngogledd-ddwyrain Cymru yw'r Wyddgrug, ac mae ganddi boblogaeth o 10,500.

Yn sgil dyrchafiad Clerc y Dref a Swyddog Cyllid, mae'r Cyngor yn bwriadu penodi unigolyn arloesol i fod yn Glerc y Dref. Bydd yr unigolyn yn meddu ar y profiad addas i fod yn gyfrifol am bob agwedd ar faes rheoli, swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyngor.

Ar hyn o bryd mae gennym gyllideb o oddeutu £439,000. Mae'r ymgeiswyr yn gorfod meddu ar wybodaeth gadarn am ddeddfwriaeth a gweithdrefnau llywodraeth leol, ynghyd â chymhwyster proffesiynol perthnasol. Ar ben hynny bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cyngorau Lleol (CiLCA) neu bydd yn fodlon mynd ati i ennill y dystysgrif honno. Swydd lawn amser, 37 awr yr wythnos, yw hon. Mae'r oriau hyn yn cynnwys y dyletswyddau gweinyddol sy'n gysylltiedig â Chyngor Tref ynghyd â bod yn bresennol yng Nghyfarfodydd Pwyllgor a Chyngor y Dref.

Mae Cyngor y Dref yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg, trwy gytundeb.

Mae'r Cyngor yn darparu nifer o wasanaethau statudol a hefyd yn ymwneud llawer iawn ag amrywiaeth eang o weithgareddau eraill yn yr Wyddgrug. Yn wir, mae'r dref yn enwog am y nifer fawr o ddigwyddiadau cymunedol a gynhelir ynddi ac mae hi'n cydweithio â llawer o bartneriaid.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw hanner nos, ar 8 Medi 2023; bwriedir cynnal y cyfweliadau ar 19 Medi 2023.

Am becyn cais byddwchystal â chysylltu â [townclerk@moldtowncouncil.org.uk](mailto:townclerk@moldtowncouncil.org.uk)

Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol am y swydd hon, mae croeso ichi ffonio Helen Belton ar 01352 751819 neu gallwch anfon e-bost at [townclerk@moldtowncouncil.org.uk](mailto:townclerk@moldtowncouncil.org.uk)